Beibl i Blant
yn cyflwyno

Y Pasg Cyntaf



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest

addaswyd gan: Lyn Doerksen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2014 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd gwraig yn sefyll ar ochr y bryn swnllyd, a'i llygaid trist yn edrych ar olygfa ofnadwy.

Roedd ei Mab yn marw. Enw'r fam oedd Mair, ac roedd hi'n sefyll yn agos at le roedd Iesu wedi ei hoelio i groes.





Sut oedd hyn wedi digwydd?
Sut oedd hi'n bosib i fywyd hardd Iesu ddod i ben mewn ffordd mor ofnadwy?



Sut allai Duw adael i'w Fab gael ei hoelio i groes a marw yno? Oedd Iesu wedi gwneud camgymeriad? Oedd Duw wedi methu?

Na! Doedd Duw ddim wedi methu. Doedd Iesu ddim wedi gwneud camgymeriad. Roedd Iesu'n gwybod o'r dechrau fod dynion drwg yn mynd i'w ladd.

Hyd yn oed pan oedd Iesu'n fabi, roedd hen ddyn o'r enw Simeon wedi dweud wrth Mair bod amser trist o'i blaen.

Ychydig
ddyddiau
cyn i Iesu
gael ei ladd,
daeth dynes ato i
dywallt persawr ar ei draed.

"Mae hi'n gwastraffu arian", cwynodd y disgyblion. "Mae hi wedi gwneud rhywbeth da," meddai Iesu.

“Mae hi wedi
gwneud pethau’n barod
ar gyfer fy nghladdu.”
Dyna eiriau rhyfedd!

Ar ôl hyn, cytunodd Jwdas, un o ddeuddeg disgybl Iesu, i fradychu Iesu i'r prif offeiriaid am 30 darn o arian.



Amser gwledd Bara
Croyw yr Iddewon,
cafodd Iesu ei
bryd bwyd olaf
gyda'i ddisgyblion.

Dywedodd bethau rhyfeddol wrthyn nhw am Dduw, a'i addewidion i'r rhai sy'n ei garu. Yna rhoddodd Iesu fara a gwin iddyn nhw i'w rannu.

Roedd y pethau hyn
i'w hatgoffa nhw fod
Iesu'n rhoi ei gorff
a'i waed er mwyn i
bobl gael maddeuant
am bopeth drwg yn
eu bywyd.

Yna dywedodd Iesu wrth ei ffrindiau fod rhywun yn mynd i'w fradychu ac y bydden nhw'n rhedeg i ffwrdd.



“Wna i ddim rhedeg i ffwrdd”, mynnodd Pedr. “Cyn i’r ceiliog ganu, fe fyddi di wedi dweud dair gwaith bod ti ddim yn fy nabod i,” meddai Iesu.



Yn hwyrach y noson honno, aeth Iesu i weddïo yng Ngardd Gethsemane. Aeth y disgyblion oedd gydag e i gysgu.

"Dad," gweddiodd Iesu, "...gad i'r cwpan hwn fynd i ffwrdd os ydy hynny'n bosib.

Ond paid gwneud beth dw i eisiau, gwna beth rwyt ti eisiau."

Yn sydyn, dyma dyrfa yn cyrraedd yr ardd, gyda Jwdas ar y blaen. Wnaeth Iesu ddim amddiffyn ei hun, ond torrodd Pedr glust person i ffwrdd.



Yn dawel, cyffyrddodd Iesu â'r dyn a'i wella. Roedd Iesu'n gwybod fod yr arestio yn rhan o gynllun Duw.



Dyma'r dyrfa yn cymryd Iesu i dŷ'r prif offeiriad.

Yno, dywedodd arweinwyr yr Iddewon fod yn rhaid i Iesu farw. Roedd Pedr yn sefyll wrth le tân y gweision, yn gwylio.

Edrychodd pobl ar Pedr a dweud tair gwaith, "Roeddet ti gyda Iesu!"

Tair gwaith dywedodd Pedr fod e ddim yn nabod Iesu. Fe wnaeth e hyd yn oed regi a melltithio.

Coc-a-dwdl-dŵ



A'r foment honno, dyma geiliog yn canu.

Coc-a-dwdl-dŵ



Roedd yn
debyg i lais Duw
i Pedr. Cofiodd
beth oedd Iesu
wedi ei ddweud.
Dechreuodd
feichio crio.


Roedd Jwdas
yn edifar hefyd.
Roedd e'n gwybod
fod Iesu heb
wneud drwg.

Aeth i roi'r arian yn ôl i'r offeiriad, ond doedden nhw ddim yn barod i'w gymryd.


Taflodd Jwdas
yr arian ar lawr,
aeth allan – a
chrogi ei hun.


Dyma nhw'n dod ag Iesu o flaen Peilat, y llywodraethwr Rhufeinig.


Dywedodd Peilat,
"Dyw'r dyn yma ddim
wedi gwneud unrhyw
beth o'i le."


Ond roedd y dyrfa'n gweiddi, "Croeshoelia fe! Croeshoelia fe!"

Yn y diwedd, dyma Peilat yn cytuno ac yn dweud bod yn rhaid i Iesu farw ar groes.

Fe wnaeth y milwyr bwnio Iesu, poeri yn ei wyneb, ei chwipio, a gwneud coron o ddrain miniog a'i gwasgu ar ei ben. Yna dyma nhw'n hoelio Iesu i groes bren i'w ladd.

Roedd Iesu yn gwybod o'r dechrau y byddai'n marw fel hyn. Roedd hefyd yn gwybod fod ei farw yn mynd i olygu maddeuant i bawb fyddai'n ei drystio.



Cafodd dau leidr eu rhoi ar groesau wrth ymyl Iesu. Fe wnaeth un ohonyn nhw gredu yn Iesu – a mynd i'r Nefoedd. Ond nid y llall!




Ar ôl dioddef am
oriau, dywedodd
Iesu, "Mae'r
cwbl wedi
ei wneud,"
a marw.

Roedd ei waith drosodd. Dyma ei ffrindiau yn ei gladdu mewn bedd preifat.

Fe wnaeth y milwyr
Rhufeinig selio
a gardio'r bedd.
Doedd neb yn
gallu mynd i
mewn -
nac
allan.

Petai'r stori yn gorffen yma, byddai'n stori drist iawn. Ond fe wnaeth Duw rywbeth rhyfeddol.
Daeth Iesu yn ôl yn fyw!


Yn gynnar yn y bore ar ddiwrnod cyntaf yr wythnos, fe welodd rhai o ddisgyblion Iesu fod y garreg wedi ei symud oddi wrth y bedd.


Fe wnaethon nhw edrych tu mewn i'r bedd - doedd Iesu ddim yno!

Arhosodd un o'r merched
wrth y bedd, yn crio.
Daeth Iesu ati!
Rhedodd i ddweud
wrth y disgyblion
eraill.


"MAE IESU'N FYW!
MAE IESU WEDI
CODI O'R BEDD!"
meddai hi yn
llawen.

Yn fuan wedyn, daeth Iesu at y disgyblion a dangos ei ddwylo a marc yr hoelion arnyn nhw. Roedd yn wir!
ROEDD IESU YN FYW ETO!

Maddeuodd i Pedr am ddweud
ei fod e ddim yn ei adnabod.
Yna aeth yn ôl i'r nefoedd.
Roedd e wedi dod o'r nefoedd
y Nadolig cyntaf hwnnw.

Y Pasg Cyntaf

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Mathew 26-28, Luc 22-24,
Ioan 13-21

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16